HEDDLU DYFED-POWYS

HYSBYSIAD O GANLYNIAD GWRANDAWIAD AR GAMYMDDWYN GAN YR HEDDLU

(Rheoliad 43 Rheoliadau'r Heddlu (Ymddygiad) 2020,

fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau'r Heddlu (Ymddygiad) (Diwygio) 2024)

ADRODDIAD Y CADEIRYDD

SWYDDOG DAN SYLW: CWNSTABL 984 ZOE WILLIAMS

ENW'R CADEIRYDD: PRIF GWNSTABL CYNORTHWYOL VICKI TOWNSEND

ENWAU AELODAU'R PANEL: MR KEITH MEREDITH A MR MARK REES

PENDERFYNIADAU'R GWRANDAWIAD

HONIADAU

1. Yn ystod noson 23 Awst 2024, nid oeddech ar ddyletswydd ac roeddech yn cymdeithasu yng Nghlwb Cymdeithas y Llu Awyr Brenhinol yn Nhyddewi.
2. Yn ystod y nos, fe wnaethoch chi gerdded tuag at ddyn anhysbys tra roeddech chi y tu mewn i'r clwb, ac unwaith i chi sefyll o'i flaen ef, fe wnaethoch chi gyffwrdd neu gwpanu ei afl heb unrhyw gred resymol ei fod wedi cydsynio i chi ei gyffwrdd yn rhywiol.
3. Roedd eich ymddygiad yn torri'r Safonau Ymddygiad Proffesiynol canlynol.
   (a) 'Awdurdod, parch a chwrteisi' oherwydd bod cyffwrdd ag afl y dyn anhysbys heb ei gydsyniad yn amharchus ac yn amhriodol.
   (b) 'Ymddygiad annheilwng' oherwydd bod cyffwrdd ag afl y dyn anhysbys heb ei gydsyniad yn debygol o ddwyn anfri ar y gwasanaeth heddlu.
4. Fe wnaethoch dorri Safonau Ymddygiad Proffesiynol i raddau digon difrifol fel bod hyn yn gyfystyr â chamymddwyn difrifol.

CEFNDIR

Ymunodd Cwnstabl Zoe Williams â Heddlu Dyfed Powys ym mis Gorffennaf 2020, felly ar adeg y digwyddiadau hyn roedd ganddi oddeutu pedair blynedd o wasanaeth. Ar 23 Awst 2024 nid oedd Cwnstabl Williams ar ddyletswydd ac allan am y noson yn cymdeithasu ac yn yfed alcohol gyda ffrindiau. Dechreuodd ei noson yn nhafarn y Farmers Arms yn Nhyddewi, lle arhosodd tan amser cau. Yna penderfynodd gerdded i Glwb Cymdeithas y Llu Awyr Brenhinol yn Nhyddewi gyda rhai o'i ffrindiau. Ar ei ffordd i Glwb Cymdeithas y Llu Awyr Brenhinol fe gyfarfu â grŵp o chwech o ddynion a oedd yn yfed alcohol yn y sgwâr yng nghanol Tyddewi. Nid oedd Cwnstabl

Williams wedi cwrdd ag unrhyw un o'r gwrywod hyn o'r blaen. Dywedon nhw eu bod nhw'n dod o ardal Caerdydd. Penderfynon nhw fynd i Glwb Cymdeithas y Llu Awyr Brenhinol gyda Chwnstabl Williams a'i ffrindiau. Nos Wener penwythnos gŵyl banc mis Awst ydoedd hi. Tra roedd hi yng Nghlwb Cymdeithas y Llu Awyr Brenhinol, fe siaradodd Cwnstabl Williams â nifer o ffrindiau a sawl unigolyn yr oedd yn eu hadnabod. Mae gan y clwb nifer o gamerâu teledu cylch cyfyng wedi'u lleoli wrth y fynedfa, yn y cyntedd ac yn ardal y bar. Mae'r fideo teledu cylch cyfyng yn dangos y ffordd y roedd Cwnstabl Williams yn rhyngweithio ag unigolion eraill yn y clwb. Y dystiolaeth hon sy'n sail i achos yr awdurdod priodol yn ei herbyn. Ymddengys fod Cwnstabl Williams wedi yfed nifer sylweddol o ddiodydd alcoholaidd y noson honno. Roedd ei hymddygiad yn eithaf diymatal. Gwelir hi'n cofleidio nifer o bobl yn y clwb yr oedd hi'n eu hadnabod. Gwelir hi'n dawnsio mewn modd eithaf aflywodraethus ar wahanol adegau yn ystod yr awr neu fwy yr oedd hi yn y clwb.

Yn ystod yr amser yr oedd hi yng Nghlwb Cymdeithas y Llu Awyr Brenhinol, fe dreuliodd Cwnstabl Williams amser yn siarad â rhai o'r chwech o ddynion o ardal Caerdydd yr oedd hi wedi cwrdd â nhw ar y ffordd i'r clwb. Ymddengys ei bod hi wedi ymgysylltu fwyaf â Gwryw A a Gwryw B. Nid yw enwau'r dynion hyn erioed wedi'u cadarnhau. Ymddengys ei bod â diddordeb arbennig yng Ngwryw A a oedd yn eithaf tal gyda thoriad gwallt nodedig ac yn gwisgo crys-t du. Mae'r honiad o gamymddwyn yn ei herbyn yn deillio o ddigwyddiad ar lawr dawns Clwb Cymdeithas y Llu Awyr Brenhinol am tua 1.20am ar 24 Awst 2024. Ni chafwyd unrhyw gŵyn gan Wryw A am ymddygiad Cwnstabl Williams, ond mae'r awdurdod priodol yn dibynnu ar fideo teledu cylch cyfyng y honnir ei fod yn dangos Cwnstabl Williams yn cyffwrdd ag ardal afl Gwryw A.  Mae Cwnstabl Williams yn gwadu iddi ymddwyn yn y modd a honnir ym mharagraff 2 o Hysbysiad Rheoliad 30.

## CANFYDDIADAU O FFEITHIAU

Wrth ystyried yr honiadau yn erbyn Cwnstabl Williams, ystyriodd y panel mai'r awdurdod priodol sydd â'r baich profi. Y safon profi yw yr hyn sy'n debygol. Mae hynny'n golygu bod yn rhaid i'r panel fod yn fodlon ei bod yn fwy tebygol na pheidio bod digwyddiad wedi digwydd cyn y gellir ei ystyried fel mater sydd wedi'i brofi. Darllenodd y panel gasgliad o ddogfennau'r gwrandawiad a oedd yn cynnwys 37 tudalen cyn i'r gwrandawiad ddechrau.  Cafodd ac ystyriodd y panel hefyd fanylion a fideo teledu cylch cyfyng o'r camerâu yng Nghlwb Cymdeithas y Llu Awyr Brenhinol cyn y gwrandawiad. Yr unig dyst a roddodd dystiolaeth lafar yn y gwrandawiad oedd Cwnstabl Williams. Mae hi o gymeriad da oherwydd nad oes ganddi unrhyw euogfarnau troseddol na chanfyddiadau o gamymddwyn yn ei herbyn yn y gorffennol. Mae tystiolaeth hefyd o'i chymeriad da o'r saith geirda y mae hi wedi'u cyflwyno. Mae hyn yn berthnasol i'r gwrandawiad mewn dwy ffordd. Yn gyntaf, mae hi wedi rhoi tystiolaeth lafar ac wedi ymateb pan gafodd ei holi mewn cyfweliad, ac mae ei chymeriad da yn cefnogi ei hygrededd. Mae'n nodwedd gadarnhaol yr ystyriodd y panel wrth ystyried a oedd yn derbyn ei thystiolaeth ai peidio. Yn ail, mae cymeriad da Cwnstabl Williams yn berthnasol i dueddiad, a gall olygu ei bod hi'n llai tebygol o fod wedi cyflawni'r weithred a honnir yn ei herbyn.

### HONIAD 1

Cyfaddefir hyn gan Gwnstabl Williams. Mae'r panel wedi canfod ei fod wedi'i brofi o gyfaddefiad y swyddog a'r holl wybodaeth yn y casgliad o ddogfennau a ddarparwyd i'r gwrandawiad.

### HONIAD 2

Mae hyn wedi'i brofi gan y panel. Mae'r panel yn seilio ei benderfyniad ar wylio’r fideo teledu cylch cyfyng o Glwb Cymdeithas y Llu Awyr Brenhinol nifer fawr o weithiau. Ystyriodd y panel dystiolaeth Cwnstabl Williams yn ofalus. Yn ei Hymateb Rheoliad 31 roedd hi wedi dweud ei bod yn gwadu'r honiad yn ei herbyn yn llwyr. Dywedodd ei bod wedi rhoi datganiad ysgrifenedig i'r ymchwilydd wedi’i ddyddio 9 Hydref 2024 a bod y datganiad yn gywir. Dywedodd ei bod wedi cael cyngor cyfreithiol gan ei chyfreithiwr i beidio â gwneud unrhyw sylw yn y cyfweliad ffurfiol a gafodd gan Adran Safonau Proffesiynol Heddlu Dyfed-Powys am y digwyddiad. Yn ei datganiad ysgrifenedig dywedodd Cwnstabl Williams “Dydw i ddim yn gwybod ei enw. Roeddwn i'n symud heibio ef, ac yn reddfol symudais ef gan gyffwrdd ei wasg. Ni fu unrhyw ymosodiad.” Mewn tystiolaeth lafar i’r panel, dywedodd Cwnstabl Williams nad oedd hi’n gallu cofio cyffwrdd â Gwryw A yn benodol. Dywedodd nad oedd hi wedi cyffwrdd ag afl Gwryw A yn fwriadol. Cafodd ei holi yn y gwrandawiad am ei defnydd o alcohol y noson honno. Dywedodd, ar raddfa o 1 i 10, lle mae 10 yn feddw iawn, ei bod hi ar 6. Dywedodd wrth gael ei chroesholi ei bod wedi yfed pedwar neu bum jin a thonig dwbl a sawl ‘Guinness bach’ yn y Farmers Arms. Cymysgedd o Baileys a Tia Maria oedd y rhain. Pan oedd hi yng Nghlwb Cymdeithas y Llu Awyr Brenhinol fe gafodd hi un siot o Sambuca. Dywedodd fod swm yr alcohol a yfodd y noson honno yn fwy nag y byddai yn ei yfed fel arfer. Dywedodd ei bod ychydig yn fwy diymatal na’r arfer ar ôl y diodydd a gafodd, ond nid oedd hi'n cwympo nac yn colli rheolaeth. Gwadodd gyffwrdd â Gwryw A islaw lefel ei wregys. Gwadodd ei bod hi’n ffansio Gwryw A. Gwadodd ei bod hi eisiau dweud wrtho ei bod hi am i rywbeth ddigwydd rhyngddynt. Wrth gael ei holi eto dywedodd wrth y panel, wrth ddefnyddio'r gair ‘gwasg’, ei bod yn golygu islaw y frest ac uwchben y gwregys. Pan ddefnyddiodd y gair ‘digwydd’ yn ei Hymateb Rheoliad 31, roedd hi'n golygu bod unrhyw gyffyrddiadau yn ddamweiniol. Mae'r panel yn fodlon bod PC Williams wedi cyffwrdd â Gwryw A yn fwriadol pan wnaeth hi ddau symudiad tuag at ei ardal afl gan wneud cyswllt â’r ardal honno. Mae'r panel o’r farn nad oedd hyn yn anfwriadol nac yn ddamweiniol. Mae'r panel hefyd o’r farn bod y cyffyrddiad yn rhywiol oherwydd lleoliad y cyffyrddiad. Ym marn y panel, drwy wneud hyn, mae'n debyg bod Cwnstabl Williams yn dweud wrth Gwryw A ei bod â diddordeb rhywiol ynddo.

TORRI SAFONAU

Honnir bod Cwnstabl Williams wedi torri Safonau Ymddygiad Proffesiynol ‘parch, awdurdod a chwrteisi’ ac ‘ymddygiad annheilwng’.

Y safon ‘awdurdod, parch a chwrteisi’ yw bod ‘Swyddogion heddlu yn gweithredu gyda hunanreolaeth a goddefgarwch, gan drin aelodau’r cyhoedd a chydweithwyr â pharch a chwrteisi. Nid yw swyddogion heddlu yn camddefnyddio eu pwerau na'u hawdurdod ac maent yn parchu hawliau pob unigolyn.’ Ym marn y panel, ni wnaeth Cwnstabl Williams arfer hunanreolaeth pan oedd yng Nghlwb Cymdeithas y Llu Awyr Brenhinol yn oriau mân y bore ar 24 Awst 2024. Ni ddangosodd barch na chwrteisi tuag at Wryw A, yr oedd hi braidd yn ei adnabod. Nid oes unrhyw dystiolaeth ar y fideo teledu cylch cyfyng bod Gwryw A wedi cydsynio i gael ei gyffwrdd gan Gwnstabl Williams yn ardal ei afl na'i fod wedi ei hannog i ymddwyn fel hyn. Ni awgrymodd Cwnstabl Williams ei fod wedi cydsynio, nac wedi annog yr hyn a ddigwyddodd, oherwydd gwadodd ei gyffwrdd.

Y safon ymddygiad annheilwng yw bod ‘Swyddogion heddlu yn ymddwyn mewn modd nad yw’n dwyn anfri ar y gwasanaeth heddlu nac yn tanseilio hyder y cyhoedd ynddo, boed ar ddyletswydd neu ddim ar ddyletswydd. Mae swyddogion heddlu yn adrodd am unrhyw gamau a gymerwyd yn eu herbyn am drosedd, unrhyw amodau a osodwyd arnynt gan lys neu dderbyn

unrhyw hysbysiad cosb.' Dim ond rhan gyntaf y safon sy'n berthnasol i'r achos hwn. Roedd gan ymddygiad Cwnstabl Williams y potensial i niweidio enw da'r gwasanaeth heddlu a thanseilio hyder mewn swyddogion heddlu. Er nad ydoedd hi ar ddyletswydd, roedd y safon yn dal i fod yn berthnasol iddi. Roedd hi'n hysbys fel swyddog heddlu i lawer o'r unigolion hynny a oedd yn bresennol yn y clwb, a oedd yn ei gwneud yn bwysicach fyth ei bod hi'n ymddwyn yn briodol.

CAMYMDDWYN / CAMYMDDWYN DIFRIFOL

Diffiniad camymddwyn yn y rheoliadau yw torri Safonau Ymddygiad Proffesiynol mewn modd mor ddifrifol fel ei fod yn cyfiawnhau camau disgyblu.

Diffinnir camymddwyn difrifol fel torri Safonau Ymddygiad Proffesiynol mewn modd mor ddifrifol fel ei fod yn cyfiawnhau diswyddo.

Cynhaliodd y panel asesiad o ddifrifoldeb gweithredoedd y Cwnstabl Williams, ac maen nhw wedi'u profi yn yr achos hwn.

Cynhaliwyd yr asesiad hwn gan gymhwyso'r canllawiau gan Mr Ustus Popplewell yn achos Fuglers LLP v Solicitors Regulation Authority [2014] EWHC 179 ym mharagraff 28.

1. BEIUSRWYDD

Yn gyntaf, ystyriodd y panel feiusrwydd y swyddog am yr hyn a ddigwyddodd. Gair arall am feiusrwydd yw bod ar fai. Ym marn y panel, cyffyrddodd Cwnstabl Williams â Gwryw A yn fwriadol yn ardal ei afl. Fodd bynnag, gweithred ddirybudd ar ei rhan hi oedd hon. Nid yw'r panel yn ystyried ei bod wedi ymddwyn mewn ffordd ysglyfaethus. Digwyddiad ynysig o ymddygiad amhriodol oedd hwn, ac mae'r panel yn fodlon na fyddai wedi digwydd pe bai'r Cwnstabl Williams wedi bod yn sobr. Nid oedd Gwryw A yn agored i niwed. Fodd bynnag, roedd hi mewn swydd o ymddiriedaeth fel swyddog heddlu er nad oedd hi ar ddyletswydd. Mae'r panel yn asesu'r lefel o feiusrwydd fel canolig i uchel.

2. NIWED

Canfu'r panel nad oedd unrhyw dystiolaeth bod Gwryw A wedi dioddef niwed o ganlyniad i'r hyn a ddigwyddodd. Ni wnaeth unrhyw gŵyn ar y pryd nac wedi hynny am yr hyn a ddigwyddodd. Nid oes unrhyw arwydd ei fod yn ddig nac yn dioddef anghysur o ganlyniad i weithredoedd Cwnstabl Williams. Fodd bynnag, mae'r panel yn fodlon y gallai'r hyn a wnaeth Cwnstabl Williams fod wedi niweidio enw da'r gwasanaeth heddlu. Yn wir, oherwydd bod Cwnstabl Williams yn hysbys yn bersonol i nifer o bobl yng Nghlwb Cymdeithas y Llu Awyr Brenhinol y noson honno fel swyddog heddlu, mae'r panel yn credu ei bod yn debygol y byddai ei hymddygiad meddw wedi adlewyrchu'n wael arni hi a'r gwasanaeth heddlu, hyd yn oed pe na bai eraill yn ymwybodol ohoni'n cyffwrdd ag ardal afl Gwryw A ar y llawr dawnsio. Ym marn y panel mae lefel y niwed yn yr achos hwn yn uchel.

3. FFACTORAU GWAETHYGOL

Canfu'r panel nifer o ffactorau gwaethygol:

(a) Roedd Cwnstabl Williams yn fodel rôl fel swyddog heddlu, ac roedd ei hymddygiad yn gosod esiampl wael iawn i eraill oedd yn bresennol yn y clwb.

(b) Roedd cymhelliant rhywiol dros y ffordd y gwnaeth Cwnstabl Williams ymddwyn tuag at Wryw A. Roedd hi eisiau ei wneud yn eglur i Wryw A fod ganddi ddiddordeb rhywiol ynddo.
(c) Torrodd ddwy o'r Safonau Ymddygiad Proffesiynol.
(d) Yfodd ormod o alcohol pan oedd ar noson allan yn Nhyddewi, a effeithiodd hynny'n andwyol ar ei hymddygiad.

Ym marn y panel mae'r ffactorau gwaethygol ar lefel ganolig o ddifrifoldeb.

4. FFACTORAU LLINIAROL

Yr unig ffactor lliniarol y gall y panel ei nodi sy'n berthnasol i'r digwyddiad ei hun yw ei fod yn ddigwyddiad byr, untro o gyffwrdd rhywiol. Mae hyn yn golygu bod lefel y lliniaru yn isel.

CASGLIAD

Mae lefel gyffredinol y difrifoldeb yn yr achos hwn yn ganolig i uchel ym marn y panel. Mae'r panel o'r farn bod y camymddygiad yn yr achos hwn mor ddifrifol fel y gallai arwain at ddiswyddo'r swyddog ac fe'i asesir fel camymddwyn difrifol.

CANLYNIAD

Wrth ystyried y canlyniad, ystyriodd y panel gyflwyniadau cwnsler yr awdurdod priodol a chwnsler Cwnstabl Williams. Atgoffwyd y panel gan yr unigolyn â chymwysterau cyfreithiol o agweddau pwysicaf canllawiau'r Coleg Plismona ar ganlyniadau mewn achosion o gamymddwyn gan yr heddlu (y canllawiau). Derbyniodd y panel gyngor yr unigolyn â chymwysterau cyfreithiol. Wrth ystyried y canlyniad priodol, fe asesodd y panel ddifrifoldeb y camymddwyn sydd wedi'i brofi yn gyntaf. Mae'r panel yn ailadrodd y canfyddiadau y mae wedi'u gwneud wrth ystyried camymddwyn a chamymddwyn difrifol. Mae'r canfyddiadau hyn ynghylch difrifoldeb hefyd yn berthnasol ar y cam hwn.

Atgoffodd y panel ei hun o ddiben cyfundrefn camymddygiad yr heddlu sydd â thri phwynt:

1. Cynnal hyder y cyhoedd yn y gwasanaeth heddlu, ac enw da'r gwasanaeth hwnnw.
2. Cynnal safonau uchel ym maes plismona ac atal camymddwyn.
3. Amddiffyn y cyhoedd.

Lliniaru personol.

Cadwodd y panel eiriau'r Arglwydd Ustus Maurice Kay mewn cof yn achos Salter yn erbyn Prif Gwnstabl Dorset [2012] EWCA Civ 1047, 'O ran lliniaru personol, yn union fel y gall cyfreithiwr sydd wedi mynd ar gyfeiliorn yn annisgwyl gyfeirio at orffennol di-fai a pharch ei gydweithwyr, felly hefyd y bydd swyddog heddlu yn aml yn gallu gwneud hynny. Fodd bynnag, oherwydd pwysigrwydd hyder y cyhoedd, mae potensial lliniaru o'r fath o reidrwydd yn gyfyngedig.' Yn achos Williams yn erbyn Tribiwnlys Apeliadau'r Heddlu [2016] EWHC 2708 (gweinyddiaeth), fe ddywedodd Mr Ustus Holroyd, 'Mae pwysigrwydd cynnal hyder y cyhoedd yn y gwasanaeth heddlu, a pharch tuag ato yn gyson, waeth beth fo natur y camymddwyn difrifol dan sylw. Yr hyn a all amrywio fydd y graddau y mae'r camymddwyn difrifol penodol yn bygwth cadw'r hyder a'r

parch hyn. Po fwyaf y gwneir hynny, y lleiaf o bwysau y gellir ei roi i ffactorau lliniaru personol.' Er bod y panel yn cymryd y gofal angenrheidiol mewn achosion o'r natur hon, gwnaeth y saith darn o dystiolaeth a gyflwynwyd i gefnogi Cwnstabl Williams argraff dda ar y panel. Yn benodol, nododd y panel y cymorth eithriadol a roddodd i fam bryderus ar draeth Solfach ym mis Ionawr 2024. Cwympodd ei phlentyn, a oedd yn ddwy oed ar y pryd, ac nid oedd yn ymateb. Nid oedd Cwnstabl Williams ar ddyletswydd, ac roedd yn cerdded ei chi ar y traeth, pan glywodd fam y plentyn yn sgrechian a rhedodd i'w helpu. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, fe ddisgrifiodd mam y plentyn sut y cymerodd Cwnstabl Williams reolaeth dros y sefyllfa, gan gyflawni adfywio cardiopwlmonaidd iddi hyd nes i gymorth meddygol gyrraedd. Achubwyd y plentyn a gwnaeth adferiad llwyr. Roedd hyn yn bennaf oherwydd ymdrechion Cwnstabl Williams. Digwyddodd y digwyddiad ar ddiwrnod cyntaf gwyliau Cwnstabl Williams, ac ar ôl dychwelyd adref o'i thaith dramor, aeth yn syth i'r ysbyty, lle'r oedd y plentyn yn cael gofal, i wirio ei chynnydd. Oherwydd ei gweithredoedd wrth achub bywyd y plentyn, fe gafodd ganmoliaeth gan Brif Gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys ac Uchel Siryf Dyfed. Mae tystiolaeth gan gydweithwyr yn y gwasanaeth heddlu yn sôn am ei diwydrwydd a'i thrugaredd, sydd ill dau yn rhinweddau pwysig i swyddog heddlu. Dywedodd rheolwr llinell a goruchwyliwr, yr Arolygydd Dros Dro Wheeler, fod Cwnstabl Williams wedi cefnogi cydweithwyr yn y gweithle mewn modd anhunanol gan ddangos ei gallu i roi eraill yn gyntaf. Gwnaeth sylwadau hefyd ar ei hangerdd dros blismona. Canmolodd yr Arolygydd Dros Dro Morris Gwnstabl Williams, gan ei disgrifio fel swyddog da a galluog, y byddai'n hapus i weithio gyda hi. Mae'r Rhingyll Anthony wedi adnabod Cwnstabl Williams ers dros 10 mlynedd. Mae'n ei disgrifio fel un sy'n gweithio'n galed, sydd â synnwyr cryf o gyfrifoldeb ac yn cael dylanwad cadarnhaol o fewn y tîm plismona. Mae wedi ei gweld hi fel rhywun sy'n gallu bod yn amyneddgar a thosturiol, a dywedodd ei bod hi'n dangos awydd gwirioneddol i helpu eraill. Mae wedi ei goruchwylio ac yn dweud ei bod hi wedi bod yn gaffaeliad i unrhyw dîm y mae hi wedi bod yn rhan ohono. Ym marn y panel mae'r tystebau hyn yn cadarnhau bod Cwnstabl Williams wedi bod yn gaffaeliad i'r gwasanaeth heddlu, ar wahân i'r un digwyddiad hwn pan nad oedd ar ddyletswydd. Clywodd y panel dystiolaeth lafar ychwanegol gan Cwnstabl Williams ei hun ar ôl cyflwyno eu penderfyniad ar y ffeithiau, torri safonau a chamymddwyn difrifol. Dywedodd wrth y panel ei bod wrth ei bodd â'i gwaith fel swyddog heddlu. Dywedodd ei fod yn gyfle iddi roi rhywbeth yn ôl i'r gymuned.

PENDERFYNIAD

Ystyriodd y panel y canlyniadau posibl yn nhrefn esgynnol o ran difrifoldeb. Ystyriodd y panel osod rhybudd ysgrifenedig terfynol yn gyntaf. Gallai hyn fod am gyfnod o ddwy i bum mlynedd. Dylai'r panel orfodi'r canlyniad sy'n cyflawni tri phwynt y drefn gamymddwyn yn y ffordd fwyaf priodol. Cadwodd y panel mewn cof yr angen i weithredu'n gymesur. Er bod y panel o'r farn bod gweithredoedd Cwnstabl Williams yn gyfystyr â chamymddwyn difrifol a bod amhriodoldeb rhywiol yn cael ei ystyried yn fater difrifol, nid dyma'r camymddwyn mwyaf difrifol. Roedd y weithred yn fyrhoedlog iawn, ac ni wnaeth y dioddefwr unrhyw gŵyn ar y pryd nac yn ddiweddarach. Nid oedd unrhyw dystiolaeth bod unrhyw un wedi gweld y weithred nac wedi tramgwyddo unrhyw un. Cafodd ei recordio ar y teledu cylch cyfyng wrth gwrs. Roedd y panel yn ymwybodol o bwysigrwydd enw da Heddlu Dyfed-Powys a'r effaith andwyol ar enw da'r gwasanaeth heddlu y byddai gwybodaeth am y digwyddiad hwn yn ei hachosi. Roedd y panel yn ymwybodol o baragraff 6.7 o'r 'Canllawiau.' Mae hyn yn nodi bod budd y cyhoedd yn rheswm dros gadw swyddogion sydd wedi dangos sgiliau a phrofiad penodol. Ym marn y panel, mae Cwnstabl Williams wedi dangos rhinweddau pwysig a gwerthfawr yn ei gwaith fel swyddog

heddlu. Cyfeirir at y rhain yn y tystebau y mae hi wedi'u darparu, sydd wedi'u crynhoi yn gynharach yn y penderfyniad hwn. Ym marn y panel, bydd rhybudd ysgrifenedig terfynol am gyfnod o ddwy flynedd yn ei gwneud yn glir i gyd-swyddogion a'r cyhoedd yn gyffredinol fod gan ymddygiad amhriodol Cwnstabl Williams yng Nghlwb Cymdeithas y Llu Awyr Brenhinol Tyddewi yn oriau mân y bore ar 24 Awst 2025 y potensial i danseilio hyder y cyhoedd yn y gwasanaeth heddlu, ac enw da'r gwasanaeth. Bydd rhybudd ysgrifenedig terfynol hefyd yn caniatáu i Gwnstabl Williams barhau i wasanaethu fel swyddog heddlu, gan ganiatáu iddi barhau i wneud cyfraniad gwerthfawr i'w chymuned leol. Byddai diswyddo Cwnstabl Williams yn ymateb anghymesur o lym, a byddai'n niweidio'r gymuned y mae hi'n byw ac yn gweithio ynddi drwy ei hamddifadu o rywun sydd wedi profi i fod yn swyddog heddlu da yn y gorffennol. Ym marn y panel, digwyddiad untro oedd hwn a oedd yn anghydnaws â chymeriad Cwnstabl Williams.

CYHOEDDI

Nid oes unrhyw reswm pam na ddylid cyhoeddi'r penderfyniad hwn yn llawn.

DYDDIEDIG 17 Mawrth 2026

LLOFNODWYD:

PRIF GWNSTABL CYNORTHWYOL VICKI TOWNSEND (Cadeirydd)

MR KEITH MEREDITH (Aelod Panel Annibynnol)

MR MARK REES (Aelod Panel Annibynnol)